


# Strategaeth Toiledau Cyhoeddus [DRAFFT]

Wrexham County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Nodau'r Strategaeth | 5 |
| Adolygu'r Strategaeth | 5 |
| Sut mae'r strategaeth hon wedi'i llunio? | 6 |
| Sut mae'r strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor? | 6 |
| Terminoleg | 7 |
| Darpariaeth leol | 8 |
| Mapio lleoliadau | 9 |
| Cynllun Gweithredu | 10 |
| Crynodeb | 13 |
| Atodiad Un | 14 |


Ref: WCBC/ER846/13012025

## Cefndir

Ble bynnag y mae pobl yn mynd y tu allan i'w cartrefi eu hunain, maent yn dibynnu ar doiledau er mwyn mwynhau eu hymweliad. Efallai bod ymwelwyr â'r sir wedi dod cryn bellter o'u cartrefi a'u bod hefyd yn dibynnu ar gael toiledau hygyrch. Gall toiledau gael effaith sylweddol ar fwynhad unigolion a theuluoedd sy'n ymweld â mannau cyhoeddus a'u barn o'r ardal fel lle dymunol i ddod.

Mae darparu toiledau a sicrhau mynediad iddynt yn fater sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Mae tua 136,000 o bobl yn byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae 5% ohonynt o dan 4 mlwydd oed, ac mae 20% ohonynt dros 65 mlwydd oed. Mae Cymdeithas Toiledau Prydain (BTA) yn argymell y dylai toiledau hygyrch cyhoeddus gael eu darparu ar sail y boblogaeth ac ar sail pellter. Y lefel a argymhellir gan BTA yw un ciwbicl fesul 550 o ferched ac un ciwbicl neu droethfa fesul 1100 o ddynion, sy'n gymhareb 2:1 o blaid merched. Dylid hefyd darparu un toiled hygyrch ac un man newid babanod am bob 10,000 o bobl. Mae'r ddarpariaeth yn Wrecsam ar hyn o bryd yn rhagori ar yr argymhelliad ar gyfer toiledau hygyrch a chyfleusterau i newid clytiau babanod.

Gall toiledau hygyrch a glân sydd mewn mannau cyfleus mewn lleoedd megis canol trefi, parciau, llwybrau beicio a llwybrau cerdded helpu i annog pobl i gymdeithasu, gwneud ymarfer corff a bod yn fwy gweithgar yn gorfforol. Mae manteision hyn yn amlwg o safbwynt iechyd a'r economi. I'r gwrthwyneb, gall diffyg cyfleusterau toiledau digonol effeithio hefyd ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unigolion, ac effeithio ar iechyd amgylcheddol ehangach y boblogaeth.

Mae darparu toiledau felly, â goblygiadau o safbwynt iechyd y cyhoedd ac unigolion, cludiant, atal troseddau, dylunio trefol, datblygu economaidd a diwylliannol, a thegwch mewn cymdeithas a hygyrchedd. Mae'n elfen bwysig o ddarparu amgylchedd 'cyfeillgar i bobl' i bawb sy'n mynd i ganolfannau siopa, mannau hamdden ac adloniant, cyfleusterau chwaraeon, parciau a mannau gwyrdd, pawb sy'n symud o gwmpas ar droed, ar feic, ar gludiant cyhoeddus neu mewn cerbydau preifat, boed hynny ar gyfer gwaith neu fwynhad.

Mae toiledau at ddefnydd y cyhoedd yn bwysig i bawb sydd yn mynd "i ffwrdd o gartref" am ryw reswm ac yn parhau i fod yn fater proffil uchel. Fodd bynnag, maent yn bwysicach fyth i rai grwpiau yn y gymdeithas, megis pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl ag anghenion penodol (sy'n cynnwys rhai problemau meddygol), merched, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall diffyg darpariaeth effeithio'n anghymesur ar y carfannau hynny; er enghraifft, deallir bod darpariaeth wael yn cael effaith arbennig o negyddol ar bobl hŷn, gan y bydd rhai ohonynt yn llai tebygol o fynd o'u cartrefi os nad ydynt yn ffyddiog y bydd cyfleusterau digonol ar gael iddynt. Gall hynny gyfrannu at ymdeimlad cynyddol o arwahanrwydd cymdeithasol ac anweithgarwch, a gall effeithio hefyd ar allu pobl i gadw'n annibynnol a chynnal eu hurddas yn nes ymlaen mewn bywyd.

## Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn cyfrannu tuag at sicrhau bod toiledau hygyrch a glân ar gael lle bynnag mae pobl yn byw, yn gweithio neu'n ymweld. Mae angen yn debygol o gynyddu drwy ddatblygiadau tai newydd a thrwy dwristiaeth. Mae hwn yn gyfle amserol i osod strategaeth ar gyfer hyrwyddo mynediad at gyfleusterau toiled lle mae eu hangen.

Daeth Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Darparu Toiledau i rym ar 31 Mai 2018 ac mae'n rhoi dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Mae'r strategaeth wedi ei hadeiladu o amgylch egwyddorion cydgynhyrchiad, drwy ymgysylltiad yr Awdurdod Lleol gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr a defnyddwyr posib.

Bellach mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i:

- asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau ar gyfer eu cymunedau;
- cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- llunio strategaeth toiledau lleol; ac
- adolygu'r strategaeth, ei diweddaru a rhoi cyhoeddusrwydd i adolygiadau.

Nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol yn golygu bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol (gweler y Derminoleg ar gyfer dadansoddiad o ddarparwyr). Rhaid i'r Awdurdod Lleol gymryd golwg strategol ar sut gellir darparu cyfleusterau a sut gall eu poblogaeth leol gael mynediad atynt. Wedi adolygu'r strategaeth hon, bydd angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyhoeddi datganiad o gynnydd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n dweud wrth gyrff cyhoeddus sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf honno. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn i wireddu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Maent yn cynnwys:

- ystyried yr hirdymor er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- gweithredu mewn modd integredig;
- gweithio gydag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r pum ffordd o weithio uchod tra'n paratoi, adolygu, ymgynghori a chyhoeddi'r strategaeth hon.

Prif nodau atal strategaeth toiledau lleol hon yw:

- nodi cyfleusterau toiled allweddol mewn lleoliad;
- nodi'r cyfleusterau y mae perygl y gallai lleoliad eu colli, a ffyrdd o gadw eu defnydd;
- nodi darpariaethau amgen os bydd rhaid i gyfleusterau gau;
- nodi cyfleusterau ychwanegol y gellid dod â hwy i ddefnydd ehangach er mwyn ategu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes neu gymryd lle y rheini a gollwyd; a
- nodi cyfleoedd ar gyfer creu cyfleusterau newydd i fodloni gofynion modern, sy'n gynhwysol.

## Nodau'r Strategaeth

Nod y strategaeth hon yw adolygu ansawdd a nifer y toiledau lleol sydd ar gael drwy'r Fwrdeistref Sirol, a darparu neu hwyluso'r broses o ddarparu toiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy i drigolion ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref mewn lleoliadau lle mae'r angen am y fath gyfleusterau wedi ei nodi.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn anelu i:

- Nodi'r lefel bresennol o ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus;
- Dadansoddi canfyddiadau'r asesiad o anghenion a gwblhawyd ar gyfer toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd yn eu hardal;
- Ystyried gofynion y boblogaeth yn gyffredinol;
- Nodi anghenion grwpiau penodol o ddefnyddwyr;
- Arolygu cyflwr y cyfleusterau presennol a faint o ddefnydd a wneir ohonynt;
- Nodi ac ystyried cyfleusterau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio ar hyn o bryd;
- Nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol;
- Mabwysiadu a defnyddio technolegau a dulliau cyfathrebu newydd y rhagwelir y byddant yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o leoliadau'r toiledau lleol;
- Rhoi cyngor ar ddarpariaeth ddigonol o doiledau dros dro gan hyrwyddwyr/trefnwyr digwyddiadau untro; a
- Darparu datganiad yn nodi'r camau y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu eu cymryd er mwyn diwallu'r angen hwn; ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol.

## Adolygu'r Strategaeth

Bydd Cyngor Bwdreistref Sirol Wrecsam yn paratoi adroddiad cynnydd interim yn nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'i strategaeth yn ystod pob cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau ar y dyddiad y cyhoeddwyd y strategaeth ddiwethaf. Cyhoeddir yr adroddiad cynnydd interim o fewn chwe mis ar ôl dyddiad terfyn y cyfnod o ddwy flynedd. Felly, ar ôl ei gyhoeddi, fe fydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal ddim hwyrach na 2 flynedd o fabwysiadu'r strategaeth hon. Bydd Cyngor Bwdreistref Sirol Wrecsam hefyd adolygu'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus lleol cyn pen blwyddyn o bob etholiad cyffredin ar gyfer ei ardal.

Gall Cyngor Bwdreistref Sirol Wrecsam adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg, ac wedi hynny, rhaid iddo gyhoeddi datganiad o'r camau a gymerwyd ganddo yn unol â'r strategaeth. Os bydd Cyngor Bwdreistref Sirol Wrecsam yn penderfynu diwygio'r strategaeth yn dilyn adolygiad, bydd yn cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig ac yna'n llunio adroddiad cynnydd interim gan gynnwys y cyfnod o ddwy flynedd yn dechrau o ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.

## Sut mae'r strategaeth hon wedi'i llunio?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023 er mwyn asesu anghenion preswylwyr, a phobl sy'n ymweld neu'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy borth cyfathrebu y Cyngor ar-lein, sef "Eich Llais", gyda sawl ffordd o ymateb, e.e. ar-lein neu ar bapur. Derbyniwyd cyfanswm o 520 o ymatebion. Mae'r canlyniadau wedi'u manylu yn Atodiad Un a chawsant eu defnyddio i ddylanwadu ar gynnwys y strategaeth ddrafft.

Fe ymgysylltwyd â grwpiau cymunedol a'r cyhoedd er mwyn deall beth sydd sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd a sut y gellir lliniaru unrhyw fylchau yn yr hyn sy'n cael ei gynnig.

Cynhaliwyd ymarfer hefyd pan gysylltodd y Cyngor â busnesau lleol i ganfod a fyddent yn fodlon cymryd rhan. Roedd yr ymateb gan y gymuned fusnes leol yn gadarnhaol ac rydym yn gobeithio cynyddu nifer y cyfleusterau drwy'r dull yma.

## Sut mae'r strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor?

Cafodd Cynllun y Cyngor presennol ei gymeradwyo ym 2023. Mae'n nodi 6 blaenoriaeth lles a gwelliant. Mae hybu iechyd a lles da yn cyfrannu'n gadarn at dair o Nodau Lles: Cymru Iachach sy'n gymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl ar ei orau gyda dewisiadau ac ymddygiad o fudd i iechyd yn y dyfodol; Cymru mwy cyfartal sy'n gymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo eu cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol); Cymru gadarn lle mae ein gweithlu a'n gwasanaethau yn gallu diwallu anghenion pobl a Chymru gyda chymunedau cydlynus sy'n ddeniadol, yn hyfyw, yn ddiogel ac wedi eu cysylltu'n dda. Mae'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus yn cyfrannu at yr amcan lles.

- Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithiol a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd
- Datblygu'r Economi
- Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel
- Gwella Addysg a Dysgu
- Hybu Iechyd a Lles da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da)
- Cefnogi Gweithlu ac Ymgysylltiedig sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau.

# Terminoleg

## Eiddo'r Cyngor

### Ar wahân - wedi'u rheoli gan y cyngor

Dyma'r hyn y byddai llawer o bobl yn eu hystyried yn doiledau cyhoeddus traddodiadol. Maent wedi bod fel arfer yn adeiladau pwrpasol ar wahân gyda gwahanol rannau ar gyfer Merched a Dynion, ac yn fwy diweddar yn cynnwys uned hygyrch ar gyfer pobl anabl. Mae'r Cyngor wedi bod yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhain, eu rheoli a'u glanhau a staff mewnol a fu'n gwneud hynny.

### O fewn cyfleusterau a swyddfeydd y cyngor

Gall cyfleusterau toiledau fod ar gael i'r cyhoedd os yw'r lleoliad, y trefniadau mynediad a'r amgylchiadau'n galluogi hynny, megis llyfrgelloedd, canolfannau chwaraeon a rhai swyddfeydd y Cyngor. Mae'r rhain yn aml wedi deillio o angen mwy cyffredinol i sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir yn hygyrch i bawb yn y gymuned.

### Yn cael eu rhedeg gan drydydd parti

Mae'r rhain yn cynnwys toiledau cyhoeddus traddodiadol sydd bellach yn cael eu rhedeg gan drydydd parti megis Cynghorau Cymuned ac adeiladau sy'n eiddo'r Cyngor sy'n cael eu rheoli a'u rhedeg gan sefydliad trydydd parti, mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau Freedom Leisure.

## Darpariaeth y sector masnachol / manwerthu

Mae llawer o'r toiledau y mae busnesau masnach a manwerthu wedi'u darparu wedi bod ar gyfer y cwsmeriaid yn unig, neu'n bennaf. Ceir dealltwriaeth mewn rhai siopau mewn canol trefi fod pobl yn dod i mewn i ddefnyddio'r toiledau a chydnabyddiaeth y gallai hynny ddenu pobl i brynu nwyddau tra'u bod yno. Mae canolfannau siopa trefi a datblygiadau manwerthu cymysg newydd fel arfer yn darparu toiledau ar gyfer ymwelwyr a siopwyr bellach. Mae'r rhan helaeth o atyniadau i ymwelwyr a thwristiaid a mannau adloniant fel sinemâu'n darparu toiledau. Mae datblygiad Dôl yr Eryrod yn enghraifft dda yma ac mae'r gweithredwyr wedi gwirfoddoli'r cyfleusterau i fod yn rhan o Strategaeth y Cyngor. Yn aml gall gorsafoedd rheilffordd ddarparu cyfleusterau toiled, ac mae Swyddogion wedi trafod gyda chydweithwyr yn Nhrafnidiaeth Cymru mewn cysylltiad â'u cynnwys nhw wrth symud ymlaen.

## Darpariaeth leol

Darparu toiledau mewn adeiladau ar wahân fu'r arfer am rai degawdau ac mae lle i hynny o hyd mewn rhai amgylchiadau penodol. Mae budd cynyddol, fodd bynnag, wrth gyd-leoli'r ddarpariaeth mewn adeiladau presennol lle bynnag y bo modd, er mwyn lleihau'r elfennau negyddol fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth a'r costau sy'n deillio o hynny.

Ochr yn ochr â darparwyr masnachol mewn canolfannau siopau mawr sydd ar agor yn hwyr, ac mewn canolfannau adloniant ac atyniadau ymwelwyr, bydd y ddadl o blaid cael toiledau cyhoeddus hygyrch mewn amrywiaeth fwy helaeth o adeiladau cymunedol a chanolfannau gwasanaeth yn cryfhau, gan ddenu amrywiaeth fwy helaeth o ddarpar bartneriaid i'w hariannu a'u rheoli.

Yn anffodus mae toiledau cyhoeddus yn aml yn darged ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth. Rydym yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn a cheisio cadw'r cyfleusterau ar agor. Fodd bynnag, bydd fandaliaeth barhaus yn arwain at gau toiledau cyhoeddus os nad ellir fforddio atgyweiriadau.

Mae'r gyllideb bresennol ar gyfer toiledau cyhoeddus yn Wrecsam yn annigonol er mwyn uwchraddio'r cyfleusterau presennol, a chaiff ei ddefnyddio'n bennaf er mwyn talu am lanhau, cynnal a chadw hanfodol ac atgyweiriadau/cynnal a chadw ymatebol yn dilyn fandaliaeth, sydd eu hangen er mwyn cadw'r cyfleusterau ar agor.

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gymysgedd o ddarparwyr, fel a ganlyn:

51 o leoliadau toiled cofrestredig ac o fewn y cyfleusterau yma mae yna

- 7 lle newid
- 42 ystafell newid babanod
- 44 toiled i bobl anabl

## Mapio lleoliadau

Mae hyn yn rhan bwysig o'n strategaeth fel bod pobl sydd ag angen mynd i'r toiled yn medru cael gwybod yn hawdd ble mae'r un agosaf, yr oriau agor, manylion am hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Rhoddir cyhoeddusrwydd i leoliadau toiledau gydag ap mapio wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer technoleg symudol a ffonau clyfar. Bydd safleoedd sy'n rhan o'r cynllun hefyd yn arddangos sticer mewn lle amlwg i ddangos bod toiledau ar gael i'r cyhoedd. Bydd y sticer yn arddangos y logo a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol Cymru i roi cyhoeddusrwydd i wybodaeth am leoliad toiledau, ac er mwyn helpu'r cyhoedd i adnabod y ddarpariaeth o doiledau sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn lleol ac yn genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu map cenedlaethol o doiledau.

Caiff y map ei gynhyrchu o fewn isadeiledd mapio presennol Llywodraeth Cymru, drwy wefan MapData Cymru. Fe fydd y wefan yn cynhyrchu mapiau o Gymru gyfan yn seiliedig ar y setiau data a ddarperir gan Awdurdodau Lleol a bydd modd eu ffurfweddu i ganolbwyntio ar y darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data a gynhwysir yn y MapData ar gael i bawb fel gwasanaeth data agored.

O dro i dro bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru storfa ddata Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cyhoeddwyr canllawiau a mapiau, trigolion ac ymwelwyr yn cael mynediad at wybodaeth gywir. Gellir dod o hyd i'r map trwy'r ddolen we isod.

Mae lleoliadau holl doiledau cyhoeddus a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a lleoliadau busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun toiledau cymunedol wedi'u dangos ar fap ar wefan y Cyngor.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn hyrwyddo'r defnydd o wefan Dewis Cymru fel adnodd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth leol a'r wybodaeth sy'n ymwneud â thoiledau lleol a fydd yn cael ei chyhoeddi ar y wefan hon hefyd.

Cafodd system Map Toiledau Llefydd Newid ei ddylunio'n arbennig gan BTA mewn partneriaeth gyda Mencap a Pamis, y ddwy elusen arweiniol sy'n gweithio yn y maes hwn. Mae'r system mapio yn nodi'r cyfleusterau toiledau mwy sydd yn gwasanaethu ar gyfer miloedd o unigolion ar draws y DU sydd yn dioddef gydag Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog (PPMLD) a chefnogi eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Yn Wrecsam mae yna 7 toiled o'r fath wedi'u lleoli yn:-

- Yr Hwb Lles, Stryt Caer, Wrecsam (3 ystafell unigol)
- Ty Pawb, Tŷ Pawb, Stryt Caer, Wrecsam
- Toiledau Stryt Henblas, Wrecsam
- Canolfan Hamdden a Gweithgareddau, Y Waun
- Canolfan Siopa Dôl yr Eryrod, Wrecsam

## Cynllun Gweithredu

Ein Cynllun Gweithredu yn dilyn ein 'hasesiad o angen'. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn:

| Pwyntiau gweithredu | Maes Gwasanaeth Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Mesurau gweithredol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod darpariaeth toiledau yn cael ei hystyried yn rhan o ddull creu lleoedd llwyddiannus yn Wrecsam | Economi a Chynllunio | Darpariaeth toiledau addas i fod yn rhan annatod o greu lleoedd | Darparu cyfleusterau addas tra'n gwneud penderfyniadau newydd yn ymwneud â chreu lleoedd |
| Parhau i weithio gyda'r sector preifat, gwasanaethau gwirfoddol a Chynghorau Cymuned er mwyn edrych ar opsiynau a sicrhau bod toiledau lleol ar gael yn y llefydd lle mae y mwyaf o'u hangen. | Holl wasanaethau'r Cyngor | Nodi bylchau yn y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael a gweithio gyda sefydliadau a busnesau yn yr ardal i gynyddu eu hargaeledd | Cynyddu'r ddarpariaeth toiledau sydd ar gael i 60 erbyn diwedd 2025. |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddarparu gwasanaeth a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned, heb ragfarnu. | Holl wasanaethau'r Cyngor | Pan mae yna gyfle i ychwanegu cyfleusterau i'r cynllun, rhoi ystyriaeth i gynwysoldeb a hygyrchedd | Bydd y strategaeth yn desun Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac ymgynghoriad |
| Sicrhau y bydd y sticer logo toiled yn cael ei arddangos ym mynedfeydd pob adeilad priodol sy'n eiddo i'r Cyngor a busnesau preifat sydd wedi cytuno i gael eu mapio. | Holl wasanaethau'r Cyngor | Cynnal gwiriadau ffisegol o dro i dro er mwyn sicrhau bod arwyddion yn weladwy | Pob eiddo sy'n rhan o'r cynllun yn arddangos y logo |

| Pwyntiau gweithredu | Maes Gwasanaeth Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Mesurau gweithredol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Thrafnidiaeth Cymru; i'w hannog i'w sicrhau bod eu cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd, cymryd rhan yn y cynllun mapio a dangos y sticer logo toiled, mewn eiddo priodol. | Holl wasanaethau'r Cyngor | Cysylltu â'r partneriaid hynny | Partneriaid allweddol yn ymgysylltu ac yn darparu cyfleusterau |
| Gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth toiledau yn y Fwrdeistref Sirol drwy ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar wefan Cyngor Wrecsam yn ogystal â gwella arwyddion stryd. | Tîm y Wasg | Sicrhau bod y wybodaeth ar y wefan yn gyfredol a'i fod yn cynnwys unrhyw gyfleusterau newydd sydd ar gael | Cynllun cyfathrebu ar gyfer gweithgareddau hyrwyddol dros oes y strategaeth |
| Adolygu contractau a darpariaeth gwasanaeth presennol er mwyn monitro gweithrediadau glanhau a safonau o dro i dro er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon o fewn adnoddau wedi'u dyrannu o ran darpariaeth y Cyngor o gyfleusterau. | Tai (Cyfleusterau ac Asedau)<br>Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol | Adolygu gyda'r darparwr glanhau tai | Gostyngiad mewn cwynion |

| Pwyntiau gweithredu | Maes Gwasanaeth Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Mesurau gweithredol |
|---|---|---|---|
| Adolygu cyfleusterau hygyrch presennol er mwyn sicrhau bod yr opsiynau gorau ar gyfer darparu toiledau hygyrch yn cael eu gwneud, sy'n gweddu orau i anghenion y gymuned a'r ardal leol. | Economi a Chynllunio | Trafod gyda rheolwr canol dre, cynghorau cymuned | Ceisio cynyddu nifer y cyfleusterau sydd ar gael yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae yna ddiffyg darpariaeth |
| Mae Cyngor Wrecsam am barhau i weithio gyda'r Heddlu a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib. | Holl wasanaethau'r Cyngor | Gweithio gyda Phartneriaeth Diogelwch presennol, Nightsafe a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn nodi ac ymateb i unrhyw fygythiad posibl i'r rhai sy'n defnyddio'r cyfleusterau | Gostyngiad mewn gwybodaeth yn nodi cyndynrwydd i ddefnyddio cyfleusterau yn sgil ofn dros ddiogelwch personol |
| Sicrhau bod y Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch (SAG) yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad am gyfleusterau toiledau dros dro a fydd yn cael eu darparu mewn digwyddiadau sy'n cael eu trefnu. | Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch | Trafod gyda Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd yn gyfranogwyr gweithgaredd ar Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch, a rhoi cefnogaeth briodol | Nifer y Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch fesul blwyddyn a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu mewn digwyddiadau |
| Adolygu'r strategaeth yn unol ag amodau'r ddeddfwriaeth. | Economi a Chynllunio | Dim | 2 flynedd ar ôl mabwysiadu'r strategaeth |

## Crynodeb

Mae hi'n amlwg o'r asesiad o'r boblogaeth, cyfranogiad a nodi a mapio bod darpariaeth toiledau hygyrch cyhoeddus yn bryder sylweddol i breswylwyr ac ymwelwyr â Wrecsam.

Mae yna wahaniaeth yn y math a safon o gyfleusterau toiledau hygyrch cyhoeddus trwy gydol y sir, gyda lefelau'r cyfleusterau a glendid yn amrywio. Fel y dangosir ar y map/rhestr toiledau, mae yna gyfleusterau toiledau hygyrch cyhoeddus ar gael drwy gydol y sir, ond mae'r mwyafrif wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas. Yn ogystal â hyn, o ystyried argymhellion BTA, mae yna nifer digonol o doiledau hygyrch safonol ar gael ar hyn o bryd. Er bod yna ddarpariaeth yng nghanol y ddinas, mae yna fwlch amlwg yn narpariaeth toiledau hygyrch cyhoeddus yn rhai o'r ardaloedd mwy gwledig. Mae darparu toiledau hygyrch cyhoeddus yn hanfodol i sicrhau lles pobl a'u mwynhad cyffredinol yn Sir Wrecsam, felly mae angen llunio datrysiadau hirdymor er mwyn sicrhau darpariaeth at y dyfodol.

## Atodiad Un

Cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023 i ganfod y prif feysydd o ganolbwynt ar gyfer y strategaeth hon. Roedd yr arolwg yn holi cwestiynau am y ffordd roedd pobl yn defnyddio toiledau cyhoeddus, sut oeddent yn teimlo am dalu i ddefnyddio toiledau, cyfleusterau cyhoeddus ac ar y cyfan, beth oedd eu barn am doiledau cyhoeddus yn Wrecsam. Isod y mae rhai o'r ymatebion:-

Cafwyd 520 o ymateb i'r arolwg, mae 92% o'r ymatebwyr yn breswylwyr yn y Sir, dywedodd 79% mai canol y ddinas yw'r ardal fwyaf poblogaidd yn y Sir a chafodd ei nodi yn y grwpiau canlynol:

- Nid oes angen cyfleusterau penodol - 64%
- Defnyddiwr cadair olwyn - 6%
- Rhiant/Gofalwr gydag oedolyn ifanc/oedolyn - 20%
- Rhiant/Gofalwr gyda babi - 10%

### Cwestiwn 1

Yng nghanol y ddinas, yn yr ardal, yng nghanol pentref, atyniad neu barciau gwledig yr ydych chi'n ymweld â nhw fwyaf aml, ydi darpariaeth y toiledau yn ddigonol neu'n annigonol i fodloni eich anghenion rhwng dydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 9am i 6pm?

| Grŵp | Digonol | Annigonol | Ddim Yn Gwybod |
|---|---|---|---|
| Rhiant/Gofalwr gyda babi | 24% | 57% | 14% |
| Rhiant/Gofalwr gydag oedolyn ifanc/oedolyn | 22% | 64% | 11% |
| Nid oes angen cyfleusterau penodol | 28% | 48% | 20% |
| Defnyddiwr cadair olwyn (Dangosir canran o 27 o ymatebion) | 11% | 62% | 11% |

### Cwestiwn 2

Yng nghanol y ddinas, yn yr ardal, yng nghanol pentref, atyniad neu barciau gwledig yr ydych chi'n ymweld â nhw fwyaf aml, ydi hygyrchedd y toiledau yn ddigonol neu'n annigonol i fodloni eich anghenion?

| Grŵp | Digonol | Annigonol | Dim Ar Gael | Ddim Yn Gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Maint yr ystafell (347 o ymatebion) | 40% | 27% | 15% | 18% |
| Darparu goriad RADAR (332 o ymatebion) | 6% | 21% | 21% | 52% |
| Offer defnyddiwr (329 o ymatebion) | 17% | 25% | 18% | 40% |
| Darpariaeth lle i newid | 6% | 27% | 19% | 47% |

### Cwestiwn 3

Ar y cyfan, ydych chi'n teimlo'n hyderus y byddwch chi'n gallu dod o hyd i doiledau sydd ar agor i'r cyhoedd ac sydd yn bodloni eich anghenion (neu anghenion yr unigolyn yr ydych chi'n gofalu amdanynt) pan fyddwch chi allan yn y Fwrdeistref Sirol?

| Atebiad | Canran yr Atebion (342 Atebion) |
|---|---|
| Ydw | 9% |
| Nac ydw | 77% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn siŵr | 13% |

## Cwestiwn 4

Gan feddwl am Fwrdeistref Sirol Wrecsam yn fwy eang, nodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol.

| Datganiad | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim Yn Gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae yna ddigon o gyfleusterau | 2% | 6% | 29% | 50% | 4% |
| Mae lleoliad y cyfleusterau'n gyfleus | 1% | 5% | 39% | 51% | 4% |
| Mae lleoliad y cyfleusterau'n teimlo'n ddigon diogel | 2% | 6% | 39% | 50% | 4% |
| Mae yna ddigon o wybodaeth ynglŷn â lle mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli | 2% | 5% | 39% | 51% | 4% |
| Mae'r diffyg cyfleusterau wedi fy atal rhag ymweld â lleoliadau penodol | 33% | 28% | 19% | 12% | 8% |
| Nid yw'r cyfleusterau ar agor ar yr amseroedd rwyf eu hangen nhw | 31% | 29% | 16% | 9% | 16% |
| Ar y cyfan, mae glendid y cyfleusterau'n dda | 9% | 34% | 24% | 17% | 16% |
| Dylai toiledau fod yn rhad ac am ddim i'w defnyddio | 56% | 24% | 13% | 4% | 4% |
| Dydw i ddim yn hoffi defnyddio toiledau mewn siopau neu fwytai gan fod mod yn teimlo bod angen i mi brynu rhywbeth | 52% | 30% | 13% | 4% | 2% |

## Cwestiwn 5

Beth fyddai'r ffordd orau i chi ddarganfod ble mae'r toiledau a chyfleusterau newid agosaf wedi'u lleoli pan fyddwch chi allan? (Sawl Ateb)

| Atebiad | Canran yr Atebion |
| --- | --- |
| Ap ar fy ffôn symudol | 57% |
| Sticer neu boster wedi'i arddangos yn ffenestr yr eiddo lle mae'r cyfleusterau ar gael | 78% |
| Rhyw ddull arall | 30% |

## Cwestiwn 6

A fyddech chi'n fodlon talu i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled yn y Fwrdeistref Sirol?

| Atebiad | Canran yr Atebion |
| --- | --- |
| Byddwn | 54% |
| Na fyddwn | 46% |